

BAKER, ELIZABETH (c. 1720 - 1789), dyddiadores

Enw: Elizabeth Baker
Dyddiad geni: c. 1720
Dyddiad marw: 1789
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: dyddiadores
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: William Llewelyn Davies

Er nad oedd yn Gymraes - merch clericwr yn byw yn rhywle yng nghanolbarth Lloegr oedd hi - treuliodd Elizabeth Baker gyfran mor helaeth o'i hoes yn Sir Feirionnydd a daeth ei chysylltiad â phlasty a thylwyth Hengwrt, gerllaw Dolgellau, mor glos nes haeddu ohoni le yn y geiriadur hwn, yn arbennig felly ar gyfrif y dyddiadur a gadwodd. Wedi iddi hi, a phobl o'r enw Ralph Lodge, Mrs. Gilbert, a Mrs. Rawlins, gael patent yn caniatáu iddynt chwilio am feteloedd ar rai o diroedd y Goron rhwng Dolgellau a Llanuwchllyn, gadawodd Elizabeth Baker Loegr 25 Gorffennaf 1770 gyda'r amcan o gario'r gwaith ymlaen. Siomiant mawr fu ei hantur, ac ni chafodd hi fawr o gymorth ychwaith gan ei phartneriaid. Gorfu iddi hi, felly, ddyfod yn fath o ysgrifenyddes, o 1771 hyd 1778, i Hugh Vaughan, Hengwrt [gor-or- yr i [Robert Vaughan](#), yr hynafiaethydd, a oedd mewn helynt ar ôl helynt ariannol ac yn gorfod dioddef bygwth colli ei gartref a'i eiddo.

Tua diwedd y flwyddyn 1778 symudodd Miss Baker i Doluwcheogryd, plasty llai na Hengwrt ond yn ei ymyl; yno llwyddodd am gryn amser i ddal y ty rhag bygythion ac ymosodiadau is-siryfion a beiliau; llwyddodd y rheini yn y pen draw, fodd bynnag, a bu Elizabeth Baker yn byw yn Bryn Adda, ty sydd yr ochr arall i'r dyffryn, hyd nes y symudodd i dref Dolgellau ar 26 Ebrill 1784. Rhydd ei hanes yn ei dyddiadur - Pen. MS. 416 (mewn 10 cyfrol) yn y Llyfrgell Genedlaethol. Ceir detholion ohono (wedi eu gwneuthur gan [Syr Ben Bowen Thomas](#)) yn *Cylchgrawn Ll.G.C.*, iii, 81-101; o ddarllen y detholion hynny fe welir gymaint o olau a deflir ganddynt ar hanes lleol (pethau a phersonau) nid yn unig yn Sir Feirionnydd ond mewn manau eraill yng Ngogledd Cymru. Claddwyd hi ym mynwent eglwys Dolgellau 26 Tachwedd 1789.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

At y cyfeiriadau a roddwyd uchod ychwaneger dogfennau Nannau a Hengwrt yn C.P.C. Bangor

B. B. Thomas, *The Old Order based on the diary of Elizabeth Baker (Dolgelley, 1778 - 1786)* (Caerdydd 1945)

Darllen Pellach

Casgliad y Werin Cymru: [Dyddiadur Elizabeth Baker, Dolgellau, 1779-1782](#)

Erthygl Wicipedia: [Elizabeth Baker](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [Peniarth MSS 416: A diary and a letter book, 1770-1788](#)

Wikidata: [Q20732989](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.